# CYNGOR TREF LLANGEFNI

**COFNODION** Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 8fed o RAGFYR 2025** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

**YN BRESENNOL :**
**Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd**

Cyng. Margaret A. Thomas
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Geraint Bebb
Cyng. Non W. Parry.
Cyng. Terry Jones

**HEFYD YN BRESENNOL :**
Ms. Linda Powell - Swyddog Gweinyddol

**Cyfarfod yn cael ei Recordio**

*Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn ac yn diolch iddynt am fynychu'r Cyfarfod ar noson arfafriol iawn*

**25/178 Ymddiheuriadau :** Cyng. Arwel Môn Hughes, Cyng. R. Alwyn Parry, Cyng. Henry Jones,
**Cynghorydd Sir :** Dylan W. Rees
**Heddlu**

**25/179 Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

**25/180 Heddlu Gogledd Cymru : Dim Cynrychiolydd**
Cadeirydd yn dwyn sylw dylid fod gwell dealltwriaeth gyda'r Heddlu ynglŷn â'i ymrwymiad i fynychu'r Cyfarfodydd Llawn yn fisol. Cyng. Margaret Thomas yn adrodd fod dyddiadau'r Cyfarfodydd yn cael eu rhannu gyda'r Heddlu ond oherwydd pwysa gwaith, nid ydynt bob amser yn gallu bod yn bresennol. Dim trafodaeth bellach.

**25/181 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 10.11.2025 :**
Cyng. Non Parry yn Cynnig a Cyng. Geraint Bebb yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**25/182 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 10.11.2025 :**
**1** Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod dim cyfathrebu trwy'r Swyddfa. Ni chodwyd unrhyw fater yn ystod y Cyfarfod o dan yr Eitem uchod.

**25/183 Cynllunio :**
**1 I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 10.11.2025**
Aelodau yn fodlon i dderbyn y Cofnodion uchod a phenderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion uchod.

**25/184 I Dderbyn Argymhellion Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.11.2025 :**
**Eitem 25/148.1 o Gofnodion Cyfarfod Llawn 10.11.2025** : Cadeirydd yn dwyn sylw at: Camgymeriad gramadegol yn y frawddeg, a dylid darllen…" Cynhelir y Cyfarfod nesaf Nos Lun 17eg o Dachwedd 2025, ac nid "Cynhaliwyd y Cyfarfod Nesaf…" Bydd y Cofnod yn cael ei gywiro yn unol â'r uchod.
**Eitem 25/163.2 - Fynwent, Lon Newydd - Cofnodion Pwyllgor y Fynwent a Meysydd Chwarae 17.11.2025 :** Cyng. J. Huw Owen yn holi os oedd y gwaith yn parhau i fynd ymlaen ar y llwybr troed. Cyng. Margaret Thomas yn cadarnhau fod hyn yn waith ar y gweill. Yn unol â'r uchod, Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Non W. Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

**25/185 I Dderbyn Argymhellion Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 01.12.2025 :**
Materion yn codi o'r Cofnodion uchod :
**Eitem 25/173 : Awdit Mewnol 2025-2026 :** Cadeirydd yn adrodd fod Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau trwy e-bost heddiw, eu bod yn fodlon i gynnal yr Archwiliad Mewnol ar gyfer 2025-2026 a bydd y gwaith papur priodol yn cael ei arwyddo maes o law.
**Eitem 25/175 : Uwchraddio'r Wefan :** Cyng. Bebb yn holi am y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r Eitem yma. Swyddog Gweinyddol yn adrodd fod trefniadau wedi'i gwneud gyda Chwmni lleol i gyfarfod yn y Swyddfa ar 6ed o Ionawr 2026 i drafod ymhellach. Bydd yr Eitem yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor 12.01.2026 a hefyd y Cyfarfod Llawn nesaf 19.01.2026, i glustnodi ffigwr am y gwaith yma o fewn y Precept.
Yn dilyn o'r uchod, Cyng. Geraint Bebb yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Cofnodion. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir,

**25/186 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :**
Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :

1 **Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen 28.11.2025 :** Wedi bod yn Noson lwyddiannus iawn gyda llawer o ganmoliaeth i'r Achlysur. Cadeirydd a'r Dirprwy Faer, ar ran y Cyngor Tref, yn ddiolchgar iawn i Grŵp Siopau'r Dref am eu holl waith yn trefnu'r Noson.

2 **Parade Tracdoriau Nadolig :** Cyng. Non W. Parry yn dwyn sylw fod y Parade yn mynd trwy'r dref noson 14.12.2025, a bydd y siopau ar agor.

**25/187 Materion yn Codi Gan Aelodau : Dim**

**25/188 Adroddiad y Clerc :**
**Oherwydd sefyllfa'r Clerc, nid oes Adroddiad i'w chyflwyno : Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :**

1 **Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen 28.11.2025 :** Wedi'i drafod o dan Eitem 25/186.1 o'r Rhaglen.
2 **Cystadleuaeth Addurno Ffenestri Nadolig** : Beirniadu yn cymryd lle wythnos yn cychwyn 15fed o Ragfyr - canlyniadau yn cael eu cyflwyno ar Dudalen Facebook a Safle We'r Cyngor Tref.
3 **Cau'r Swyddfa Dros Gyfnod y Nadolig :** Awgrymiad o gau'r Swyddfa o Ddydd Llun 15.12.2025 hyd at Ddydd Llun 5ed o Ionawr 2026, gyda'r staff ar gael i ddŵad i mewn os bydd angen. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

**25/189 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :**
1 **Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn -** Cofnodion 20.10.2025 - Er Gwybodaeth;
2 **Cyfarfod y Pump Tref CCTV 20.10.2025 :** Cyng. Margaret Thomas wedi mynychu - Adroddiad ynghlwm i'r Rhaglen:

*PARHAD 25/189*

3 **Un Llais Cymru – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 21.01.2026;**

4 **Cyfarfod Adfywio Llangefni 02.12.2025 -** Dim Cofnodion wedi'i derbyn yn Swyddfa'r Cyngor Tref. Cyng. Geraint Bebb yn adrodd ei fod wedi derbyn y cofnodion ac am anfon copi ymlaen i'r Cyngor Tref. (Cofnodion Cyfarfod 09.09.2025 yn atodol i'r Rhaglen - er gwybodaeth);

5 **Cynllunio Lle:Arddangos Cynghreiriau :** Gwybodaeth wedi'i dderbyn gan Cyng. Dylan Rees a'i rannu gyda'r Aelodau;

6 **Cynllun Llifogydd Llangefni Flood Plan :** Cyng. Non W. Parry yn adrodd fod rhybudd llifogydd Dydd Llun diwethaf, gyda lefel y dwr wedi codi a'r sefyllfa'n cael ei monitor. Disgwylir derbyn y fersiwn diweddaraf o'r Adroddiad maes o law.

**25/190 Cyllid :**

**I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Tachwedd 2025 :**

1 Cyng. Margaret Thomas yn esbonio, oherwydd salwch Mr. Milburn, nid oedd yn bosib paratoi'r Fantolen Ariannol am Mis Tachwedd, a bydd yn cael ei ychwanegu fel rhan o Fantolen Mis Rhagfyr 2025 a'u cyflwyno ar Raglen Mis Ionawr 2026.

**Cyflogaeth :** Cyng. Margaret Thomas yn adrodd, oherwydd amgylchiadau'r Swyddfa, fod angen cymorth i baratoi a thalu'r cyflogau ac yn awgrymu gofyn i Gyfrifwyr Lleol wneud y gwaith yma ar ran y Cyngor Tref. Yn dilyn trafodaeth, Cyng. Thomas yn cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i symud ymlaen ar y cynnig uchod. Aelodau i gyd yn derbyn a **PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i** wneud ymholiadau gyda Chyfrifwyr ar gyfer y gwaith yma.

2 **Awdit Cymru : Cwblhau Archwiliad 2024-2025 –** Er Gwybodaeth.

**25/191 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn :**

**Cynghorydd Geraint Bebb yn adrodd ar y canlynol :**

- Cofrestru Cyfoeth Naturiol Cymru i dderbyn gwybodaeth am unrhyw broblemau;
- Draeniau wedi blocio – Lon Glanhwfa;
- Paratoi'r Gyllideb : Cynnig y Llywodraeth dim digon i dalu am yr holl wasanaethau;
- Pont Rheilffordd.

**25/192 Gohebiaeth a Materion Newydd :**

1 **19.11.2025 - Un Llais Cymru – Nodiadau Datblygu Ymarfer(22)Sefydlu Aelodau –** Atodol – er gwybodaeth – Dim Trafodaeth;

2 **27.11.2025 - Môn Actif - Safle Lon Las (Mega Slam Hoops) :** Cais , hunan esboniadol, wedi'i dderbyn gan Môn Actif i osod "Basketball Hoops" fel rhan o Brosiect ar safle Lon Las (E-bost yn atodol i'r Rhaglen, er gwybodaeth i'r Aelodau). Cyng. Margaret Thomas yn esbonio cefndir y cais i'r Aelodau gyda'r bwriad o ail-leoli'r Offer Chwarae, ar gyfer y Prosiect ac efallai bydd angen edrych ar wyneb newydd i'r safle. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** derbyn y cais uchod a gweithio ar y cyd gyda Môn Actif ar y Prosiect yma.

3 **Maes Chwarae Plas Tudur :** Cyng. Margaret Thomas yn arwain ar yr Eitem yma. Cyng. Thomas yn adrodd fod y Cyngor Tref yn cyd-weithio gyda Môn Actif i ddatblygu Cae MUGA ar safle Plas Tudur, hyd yma mae cyllideb o £10,000 wedi'i dderbyn tuag at y gwaith a bydd gweddill o gyllideb i law yn fuan. Bydd y Cais Cynllunio yn cael ei gyflwyno gan y Cyngor Tref ynghyd a'r ffi Cynllunio. Aelodau yn fodlon gyda'r uchod a bu dim trafodaeth bellach.

**25/193 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth :**

**Materion wedi'u hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Tachwedd 2025 :**

1 **Un Llais Cymru - Derbyn**

2 **Materion Eraill - Derbyn**

**25/194 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Cadeirydd :**

**1** Cadeirydd yn datgan fod dim byd i adrodd ar hyn o bryd ond bydd pawb yn cael gwybodaeth angenrheidiol yn y flwyddyn newydd.

**2** **Cylchfan, Lon Penmynydd :** Cyng. Non W. Parry yn datgan siom fod pot mawr bren yn dal Coeden Nadolig wedi cael ei ddwyn ar y safle yma.

**3** **Storm Bram :** Cyng. Geraint Bebb yn dwyn sylw at e-bost dyddiedig 8fed o Ragfyr 2025, wedi'i dderbyn gan Scottish Power, yn rhybuddio i baratoi am Storm Bram. Swyddog Gweinyddol yn cadarnhau fod y wybodaeth wedi'i rannu gyda'r Aelodau. Dim gwybodaeth wedi'i dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

**25/195 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : 19.01.2026**

7.15y.h. Diwedd y Cyfarfod

***CYNG. J. EGRYN LEWIS***
***CADEIRYDD***